

**Edexcel GCE**

# **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol**

**Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau**

Mai 2011

**Senario**

Cyfeirnod y Papur

**6959/01**

Dylai'r senario gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos  
waith cyn yr arholiad.

Sylwch: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr  
arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth  
sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE),  
sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y  
senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

*Trowch y dudalen*

**W40790A**

©2011 Edexcel Limited.

1/



## Senario

### Gwaith gwirfoddol

Rydych chi'n penderfynu cael blwyddyn allan (*gap year*). Mae elusen yn cynnig lleoliad i chi yn Tanzania, Dwyrain Affrica, a fydd yn defnyddio'r sgiliau rhwydweithio a gawsoch o'ch cwrs Safon Uwch.

Mae'r lleoliad yn cynnwys sefydlu rhwydwaith ar gyfer ysgol iau a chlinig, y ddau ohonynt mewn pentref pellennig (*remote*). Byddwch yn helpu gwirfoddolwr profiadol, Dave Grant. Mae Dave wedi ymddeol o fod yn beiriannydd rhwydwaith, ac mae'n rheoli nifer o brojectau yn yr ardal. Yn dilyn y gwaith gosod (*installation*), bydd e'n eich gadael chi i hyfforddi pobl i redeg a chynnal y rhwydwaith.

Yn dilyn eich taith awyren i Dar es Salaam, mae'n rhaid gyrru am 12 awr i gyrraedd yr ysgol. Mae pennaeth yr ysgol a'r meddyg o'r clinig yn dod i gyfarfod â chi. Maent yn dweud wrthyh chi fod Dave wedi cael ei symud i ysbyty yn Dar es Salaam. Ni fydd yn dychwelyd am o leiaf mis.

Roedd Dave newydd ddechrau cynllunio'r rhwydwaith pan aeth yn sâl. Mae ei weithdy'n cael ei ddangos i chi, ac mae'r gweithdy'n cynnwys:

- desg
- blwch offer yn cynnwys *crimper* RJ45, pecynnau profi rhwydwaith ar gyfer cebl a *WiFi*, offeryn *punchdown*, amlfesurydd (*multimeter*), ac amrywiaeth o glipiau a ffasnyddion cebl (*cable fasteners*), tyrnsgriwiau (*screwdrivers*), gefeiliau (*pliers*) ac offer bach eraill
- dwy ril 305m o gebl CAT6
- chwe pheccyn o 50 o gysylltwyr RJ45
- blwch o tua 50 o socedi data ail-law (*second-hand*) gyda phlatiau wyneb (*faceplates*) amrywiol
- blwch o switsys newydd anrheoledig (*unmanaged*), 10 x Netgear FS605 a 6 x Netgear FS608
- blwch o bwyntiau mynediad diwifr newydd, 10 x Netgear WN802T-200UKS Rangemax Next
- gliniadur Toshiba Tecra R10-11B. Mae'r gliniadur hwn yn un ail-law ac mae ganddo sticer arno'n dweud 'profwyd yn gweithio Mawrth 2011, Gweinydd Linux'. Mae ganddo becyn pŵer a batri ychwanegol
- dau argraffydd chwistrell (*inkjet*) HP Deskjet D2660. Mae'r ddau hyn yn ail-law. Mae gan un ohonynt sticer arno'n dweud 'profwyd yn gweithio Mawrth 2011'. Mae gan y llall sticer arno'n dweud 'profwyd Mawrth 2011, nid yw'r rholer yn codi papur o'r blwch papur, rhaid bwydo un ddalen ar y tro â llaw'. Mae lidiau USB a lidiau pŵer gan y ddau.

Mae'r pennaeth yn dweud wrthyh chi fod ganddo set o 50 o liniaduron XO o'r project *Un Gliniadur i Un Plentyn*. Mae digon ohonynt fel bod un gliniadur yr un gan y disgyblion 10 ac 11 oed. Dyma'r disgyblion hynaf yn yr ysgol.

Mae'r meddyg yn dweud wrthyh chi fod tri chyfrifiadur *WiFi* parod (*WiFi enabled*) yn y clinig. Mae busnes ffonau symudol lleol, TanCel, yn darparu cyswllt band-eang â'r Rhynggrwyd am ddim i'r clinig. Mae'r gliniaduron oll yn cysylltu ag un pwynt mynediad *WiFi* sydd â chysylltiad cebl CAT 6 â TanCel.

Mae TanCel wedi cynnig caniatáu i'r ysgol ddefnyddio'r cysylltiad â'r Rhynggrwyd ond bydd yn rhaid i chi gysylltu'r ysgol â'r clinig.

Mae braslun (*sketch*) o'r ardal leol ar y ddesg. Mae Dave wedi ysgrifennu rhai nodiadau arno.

Gwnewch ddau Antena WiFi ystod estynedig i ymestyn dros y pellter hwn

